# Prawf budd y cyhoedd ar yr sefyllfa bosibl o uno mewn cysylltiad â'r Telegraph Media Group

Nodyn Cyfarwyddyd

**Cyhoeddwyd 1 Rhagfyr 2023**

# Nodyn Cyfarwyddyd

## 1.1 Y Cefndir a Rôl Ofcom

1.1 Ar 30 Tachwedd 2023, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Hysbysiad Ymyriad er Budd y Cyhoedd (“PIIN”)[1] o dan adran 42(2) o Ddeddf Menter 2002 (y “Ddeddf”) ynghylch y sefyllfa berthnasol am yr uno posibl sy’n deillio o’r trefniadau gyda Redbird IMI Media Joint Venture, LCC o’r Telegraph Media Group Cyf. Telegraph Media Group yw perchennog papurau newydd y Telegraph a’r Sunday Telegraph.

1.2 Mae’r “PIIN” yn nodi’r ystyriaethau canlynol o ran budd y cyhoedd a allai fod yn berthnasol i’r sefyllfa berthnasol am yr uno posibl a adnabyddir:

- yr angen i gyflwyno newyddion yn gywir (ar sail “cyflwyno newyddion yn gywir”);[2]
- yr angen i fynegi barn yn rhydd mewn papurau newydd (ar sail “mynegi barn yn rhydd”);[3]

1.3 Mae’n rhaid i Ofcom nawr adrodd i’r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 44A o’r Ddeddf. Mae’r PIIN yn datgan bod yn rhaid i ymchwiliad ac adroddiad Ofcom gael eu cwblhau erbyn hanner nos ar ddiwedd 26 Ionawr 2024.

1.4 Mae’r ddogfen hon yn amlinellu sut byddwn yn bwrw ymlaen.

1.5 Ein rôl ni yw cynnal ymchwiliad cychwynnol i’r ystyriaethau budd y cyhoedd a rhoi cyngor ac argymhellion i’r Ysgrifennydd Gwladol ar y penderfyniad a ddylai gyfeirio’r achos at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (“CMA”) i’w ddadansoddi ymhellach. Byddwn yn canolbwyntio ar effaith y trafodiadau ar yr ystyriaethau a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac ni fyddwn yn delio â materion sy’n ymwneud â chystadleuaeth. Mae hynny o fewn awdurdodaeth y CMA. Bydd ein hadroddiad i’r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cynnwys crynodeb o unrhyw sylwadau a gawn am yr achos.

1.6 Mater i’r Ysgrifennydd Gwladol yw penderfynu a ddylid cyfeirio’r achos at y CMA i’w archwilio ymhellach yng ngoleuni ein hadroddiad.

## 1.2 Canllawiau’r broses

1.7 Mae ein proses wedi’i rhannu’n ddwy brif ran:

casglu a dadansoddi gwybodaeth; a

paratoi ein cyngor i’r Ysgrifennydd Gwladol.

[1] Daw’r PIIN yn dilyn cyhoeddi ‘llythyrau o fwriad’ ar 22 Tachwedd 2023: https://www.gov.uk/government/collections/proposed-loan-repayment-agreement-for-telegraph-media-group
[2] Adran 58 (2A)(a) y Ddeddf.
[3] Adran 58 (2A)(b) y Ddeddf.

## 1.3 Casglu a dadansoddi gwybodaeth

### Cyhoeddi'r gwahoddiad i gyflwyno sylwadau

1.8 Fe wnaethom gyhoeddi gwahoddiad i gyflwyno sylwadau ar ein gwefan ar **1 Rhagfyr 2023**. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r materion rydym yn gofyn am fewnbwn arnynt ac yn egluro sut mae cyflwyno sylwadau i Ofcom ar y mater hwn. Rydym yn gwahodd ymatebion ysgrifenedig, wedi'u hategu gan dystiolaeth, i'w cyflwyno dim hwyrach na **13 Rhagfyr 2023**. Oherwydd yr amserlenni a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, efallai na fyddwn yn gallu ystyried yn llawn ymatebion a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn.

1.9 Sylwch, os bydd unrhyw un yn rhoi gwybodaeth i ni yn y cyd-destun hwn sy'n ffug neu'n gamarweiniol iawn, mae hynny'n drosedd, ac o'i gael yn euog, gallai gael ei gosbi drwy ddirwy a/neu ddwy flynedd o garchar.[4]

### Ymgysylltu â'r partïon am y sefyllfa berthnasol bosibl o ran uno

1.10 Mae Ofcom yn disgwyl gofyn am wybodaeth gan y partïon ynghylch y sefyllfa berthnasol bosibl o ran uno. Cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn y ceisiadau, dylent drafod gydag Ofcom a yw'r data y gofynnwyd amdano ar gael ac ar ba ffurf y byddant yn cyflwyno'r data. Efallai y bydd Ofcom hefyd yn dymuno trafod y pwyntiau a godwyd yn eu cyflwyniadau ac unrhyw gwestiynau cysylltiedig eraill.

### Ymgysylltu â thrydydd partïon

1.11 Caiff Ofcom hefyd ofyn am wybodaeth gan drydydd partïon pan fo hynny'n briodol ac fel y caniateir o fewn yr amserlen a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

1.12 Mae Ofcom yn glynu'n gaeth wrth gyfrinachedd ym mhob agwedd ar ei weithrediadau. Byddwn yn cyflwyno'r holl sylwadau perthnasol i'r Ysgrifennydd Gwladol (gan gynnwys rhai cyfrinachol) i'w galluogi i wneud ei phenderfyniad. Byddwn hefyd yn darparu gwybodaeth i'r CMA lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn gofyn am fersiwn llawn heb fod yn gyfrinachol o unrhyw gyflwyniadau cyfrinachol, ynghyd â rhesymau pam y dylid trin gwybodaeth yn gyfrinachol.

### Dadansoddiad mewnol

1.13 Yn nadansoddiad Ofcom, byddwn yn defnyddio, fel y bo'n briodol, cyflwyniadau rhanddeiliaid yn ogystal â gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn fewnol, ac unrhyw ffynonellau eraill sy'n berthnasol yn ein barn ni.

## 1.4 Paratoi ein cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol

1.14 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, byddwn yn crynhoi canlyniadau ein dadansoddiad mewnol a'r pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid er mwyn dod i farn dros-dro ar ein hargymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

1.15 Os ydym yn dod i farn dros-dro bod yr achos hwn yn codi materion a allai fod yn berthnasol er budd y cyhoedd, byddwn yn anfon llythyr materion at y partïon sy'n rhan o'r sefyllfa berthnasol bosibl o ran uno, gan nodi'r dystiolaeth a'r dadleuon craidd yn yr achos. Os yw'n

[4] Adran 117 o'r Ddeddf.

briodol ac yn ymarferol, byddai’r llythyr yn cynnwys cynnig cyfarfod materion lle gall y partïon drafod ein safbwynt drafft a’r dadansoddiad sy’n sail iddo.

1.16 Bydd Ofcom yn cwblhau ei adroddiad ac yn ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol erbyn hanner nos ar **ddiwedd 26 Ionawr 2024,** ynghyd ag unrhyw ddeunydd arall a allai fod yn berthnasol i’w phenderfyniad.

1.17 Wedyn, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu a ddylid cyfeirio’r achos at y CMA i’w ddadansoddi ymhellach. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi ei phenderfyniad a’n hadroddiad ar yr un pryd.

1.18 Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu cyfeirio’r mater at y CMA, bydd Ofcom yn sicrhau bod gan y CMA yr holl wybodaeth berthnasol sydd gan Ofcom er mwyn iddynt allu cynnal eu dadansoddiad nhw.